

THOMAS, HUGH (bu farw 1720), herod a hynafiaethydd

Enw: Hugh Thomas
Dyddiad marw: 1720
Priod: Margaret Thomas (née Wood)
Rhiant: Petronilla Thomas (née Brand)
Rhiant: William Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: herod a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Mab i William Thomas, masnachwr yn Llundain, o'i wraig Petronilla ferch William Brand, Lincoln's Inn. Fe'i ganwyd 30 Mehefin 1673, yn Fetter Lane, a'i fedyddio 1 Gorffennaf yn S. Dunstons-in-the-West. Yr oedd o hen deulu (Catholig, meddir) yn Llanfrynach gerllaw Aberhonddu, ond yr oedd ei daid, Roger Thomas, wedi gwerthu'r hendre. Sgrifennodd ei hendaidd, Thomas ap John (a fu farw 1616 - y mae carreg ei fedd yn eglwys Llanfrynach) hanes Brycheiniog, ac yr oedd y llawysgrif ym meddiant Hugh Thomas. A gellir olrhain ach y Thomas ap John hwn bum cenhedlaeth ymhellach yn ôl, at Hywel Gam ([Theophilus Jones](#), *History of the County of Brecknock*, 3ydd arg., iv, 39). Ond bratiog iawn yw ein gwymbodaeth am Hugh Thomas ei hunan. Y mae'n rhaid ei fod yn ymhel â hynafiaethau er yn fore. Tua 1698 sgrifennodd draethawd ar hanes Brycheiniog (y mae'r llawysgrif heddiw yn Llyfrgell Bodley, a chopi anghyflawn, gellid meddwl, yn y Llyfrgell Genedlaethol - N.L.W. MS. 777), a ddefnyddiwyd ac a ddyfynnir gan [Theophilus Jones](#); gwnaeth hefyd gasgliad mawr o achau (a ddefnyddiwyd yntau, mewn rhan, gan [Theophilus Jones](#)), sydd heddiw ymhlith yr ' Harleian MSS. ' yn yr Amgueddfa Brydeinig; gweler [Edward Owen](#), *Cat. of Welsh MSS. in the British Museum*, ii (mynegai lawn) - y mae yno hefyd lythyrau ato gan [Edward Lhuyd](#), [William Lewes](#) o'r Llwynderw, a hynafiaethwyr eraill.

Erbyn 1703, yr oedd yn ddirprwy i'r 'Garter King-at-arms,' ac ymddengys oddi wrth lythyr ato (1710/11) gan [William Lewes](#) mai ganddo ef yr oedd yr unig hawl i gofrestru achau Cymreig y tu allan i siroedd Aberteifi a Maesyfed. Yr oedd yn ei fryd argraffu'r *Historic of Great Britain ... 'til the Death of Cadwaladr*, gwaith [John Lewis](#) o Lynwene, gyda rhai chwanegiadau, ond ni ddaeth hwn allan cyn 1729 (gweler [Ffransis Payne](#) yn *Y Llenor*, Hydref 1935). Ar sail gwaith Hugh Thomas a [William Lewes](#) y gwnaethpwyd y ' Golden Grove Book of Pedigrees ' sydd yn y P.R.O.

Yn Bloomsbury y preswyliai Hugh Thomas. Bu farw 22 Medi 1720, a chladdwyd yn S. Martins-in-the-fields. Gwnaeth ei ewyllys 14 Medi 1720 ([Edward Owen](#), op. cit., ii, 491), a phrofwyd hi 6 Hydref (*Transactions of the Carmarthenshire Antiquarian Society and Field Club*, xv, 60); bu farw, felly, rhwng y ddau ddyddiad hyn - anghywir yw'r ' 1715 ' neu ' 1721 ' yn y gwahanol argraffiadau o [Theophilus Jones](#) a llyfrau eraill. Nid oedd ganddo blant, a'i weddw, Margaret, ferch George Wood, Abergafenni, a gafodd ei eiddo ar wahân i gymynroddion. Gadawodd ei gasgliad o achau a phapurau eraill i [Robert Harley](#), [iarll Oxford](#) - felly y daethant i'r Amgueddfa Brydeinig. Yr oedd ganddo frawd, a oedd (meddai'r ewyllys) 'yn drwm yn ei ddyled,' ac wedi bod 'yn faich arno' ar hyd ei oes; eto gadawodd £10 iddo. Eithr yn ôl [Theophilus Jones](#), rhoes [Harley](#) swm anrhydeddus i'r brawd hwn, 'gan ei fod yn dlawd iawn,' yn gydnabyddiaeth am y llawysgrifau. Preswyliai dwy gares (un, beth bynnag, yn chwaer, gellid meddwl) i Hugh Thomas, yn Aberhonddu.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, nodyn ar i, 30

Gwenllian E. F. Morgan, yn *Theophilus Jones, F.S.A. historian his life, letters & literary remains* (Aberhonddu 1905), 12-15

[Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1948](#), 421-7

[Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ix, rhif 3](#), 377

a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733207](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

